

GATE (Cynyddu ar Werth Coed yn Ewrop) – Cysylltiadau â Choetiroedd Gwell i Gymru

COETIROEDD YN CEFNOGI CYMUNEDAU EFFEITHIOL A PHARHAOL

Adfywio cymunedau	4. Coetiroedd yn cyfrannu at adfywio lleol	4.1 Rhannau o Ystâd y Cynulliad a ystyriwyd ar gyfer datblygu tai gwledig fforddiadwy
		Mae GATE wedi lledaenu gwybodaeth am ddatblygiad prosiect tai fforddiadwy CCC i randdeiliaid GATE yng Nghymru. Canolbwyntiodd seminar Gwlad Pwyl ar faterion economaidd, ac ystyriwyd bod tai fforddiadwy yn hanfodol yn rhanbarth Pomorskie, er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael yno i fynd i rannau eraill o Ewrop. Cafodd staff y Sefydliad Ymchwil Adeiladau (BRE), Coed Cymru a phenseiri Cymru wybod o lygad y ffynnon am brofiad Gwlad Pwyl ac edrych ar systemau adeiladu modiwlaid rhad, a luniwyd i alluogi teuluoedd i ehangu eu cartref fel bod eu hanghenion yn cynyddu. O ganlyniad i rannu'r wybodaeth hon, mae'r system hon wedi'i mabwysiadu bellach yng Nghymru ac fe'i datblygir ymhellach mewn partneriaeth rhwng Coed Cymru, Ysgol Bensaernïaeth Cymru a Phrifysgol Cymru, Bangor.
		4.2 Camau gweithredu sy'n galluogi coetiroedd i fod yn gatalydd i adfywio economaidd lleol
		Un o brif amcanion GATE yw cyhoeddi'r cyswllt rhwng adeiladu cynaliadwy trwy ddefnyddio pren lleol ac adfywio cynaliadwy ar gymunedau lleol. Bydd y seminar Bolisi yn Estonia yng Ngorffennaf 2007 yn dangos sut y mae polisïau rhanbarthol yn Thwringia yn galluogi adfywio economaidd trwy wneud defnydd cynyddol o'u hadnoddau pren yn y sector adeiladu. Caiff y polisïau hyn eu gweld gan randdeiliaid o Gymru a deuir â'r gwersi a ddysgwyd yn ôl i Gymru a'u defnyddio i helpu llunio polisi rhanbarthol yma.

COETIROEDD YN GWNEUD CYFRANIAD CADARNHAOL I ECONOMI CYMRU

Economi amrywiol gystadleuol yn ychwanegu gwerth uchel gyda sgiliau ac addysg o ansawdd da iawn sy'n lleihau'r galw ar yr amgylchedd	1. Cyflenwi pren a gynhyrchir yn gynaliadwy sydd o ansawdd da ac sy'n bodloni anghenion busnes	1.1 Cyflenwi cynhyrchion o ansawdd da o bren a gynhyrchir yn gynaliadwy ac amrywiaeth o gynhyrchion sy'n adlewyrchu natur newidiol coedwigoedd Cymru
		Mae ymweliadau â safleoedd yn ystod seminarau rhynggranbarthol yn Thwringia, Gwlad Pwyl a Slofenia wedi galluogi rhanddeiliaid o Gymru i edrych nid ar brosesau ac adeiladu yn unig, ond hefyd ar arferion rheoli coedwigoedd sy'n cyfrannu i gyflenwad amrywiol o gynhyrchion pren o ansawdd da a gynhyrchir yn gynaliadwy.

	<p>2. Mwy o nwyddau a gwasanaethau wedi'u datblygu o goetiroedd a'r marchnadoedd wedi'u hehangu</p>	<p>2.1 Cefnogi datblygu cynhyrchion newydd, sy'n rhoi mynediad gwell i fusnesau at gynhyrchion a gwasanaethau coetir.</p>
		<p>Mae GATE yn cydweithio â Phartneriaeth Fusnes Coedwig Cymru (PFCC) i greu sector adeiladu pren bywiog yng Nghymru. Trwy gyfrwng GATE, mae'r sector yng Nghymru yn ddiau yn newid y canfyddiadau am bren fel deunydd adeiladu posibl ledled Ewrop.</p>
		<p>Mae GATE wedi dod â Busnesau Bach a Chanolig eu Maint (SMEau) at ei gilydd ac mae hyn wedi dod â manteision i'r naill a'r llall. Roedd Jamie Richardson Cynllunio ac Adeiladu yn chwilio am dechnegwyr CAD a thrwy GATE fe gyfarfu â Doug Hughes Penseiri. Bellach, deilliodd partneriaeth waith ymarferol rhwng y ddau fusnes o ganlyniad.</p>
		<p>Bydd etifeddiaeth GATE yn parhau gan fod y rhwydwaith cynaliadwy o randdeiliaid sydd wedi datblygu yn parhau i gydweithio a rhannu gwybodaeth yng Nghymru ac ar draws Ewrop ymhell ar ôl diwedd y prosiect. Bydd y wefan yn parhau i gael ei gynnal ar ôl i'r prosiect orffen, gan gynnwys adroddiadau a chanlyniadau o'r holl ddigwyddiadau, astudiaethau achos, ffotograffau a chyfeiriadur cynhwysfawr o randdeiliaid. Bydd PFCC yn cymryd yr awenau ar gyfer gweithgareddau a gychwynnwyd gan y prosiect yng Nghymru trwy gyfrwng Wood Knowledge Wales gan sicrhau bod y momentwm yn cael ei gynnal.</p>
		<p>2.2 Hyrwyddo defnydd terfynol â gwerth uchel i holl gynhyrchion coetiroedd sy'n sicrhau adenillion rhesymol i dyfwyr a hyrwyddo pren yn adnodd adnewyddadwy a defnydd cynaliadwy</p>
		<p>Caiff rhanddeiliaid y cyfle i weld drostynt eu hunain sut y mae partneriaid yn Ewrop yn defnyddio pren lleol er mwyn cael y gwerth ychwanegol gorau. Mae proseswyr coed yn Estonia a Slofenia wedi dangos i ni fod lamineiddio a gweithgynhyrchu pren haenog ar raddfa fechan yn bosibl ac y gall hyn gynnig amrywiaeth ac ystod o gynhyrchion o ran maint y byddai proseswyr mwy o faint yn eu hystyried yn aneffeithlon. Daethpwyd â'r profiad hwn yn ôl i Gymru ac yn awr caiff ei fabwysiadu.</p>
		<p>Gwelodd cynllunwyr a phenseiri o Gymru fel yr oedd tai yn Slofenia a Thwringia yn ymgorffori elfennau cynllunio a oedd y cyfrannu at wydnwch y pren a ddefnyddid, gan leihau'r angen i ddefnyddio prosesau cemegol neu gadwolion ar y pren. Mae Coed Cymru a BRE nawr yn ymgorffori'r elfennau hyn yn eu hymchwil parhaus ac os gellir cynnwys y gwydnwch, bydd llai o ddibyniaeth ar brosesau cemegol drud a niweidiol. Bydd yn golygu hefyd y gall pren heb ei drin gael ei ddefnyddio yn danwydd ar ôl dyddiau'r tŷ, gan leihau ei ôl-troed carbon.</p>

		Yn Slofenia, ymwelodd rhanddeiliaid ag ysgol lle ychwanegwyd croglofft ffrâm bren. Esboniwyd i'r grŵp mai'r rheswm yr adeiladwyd yr estyniad ar ben yr ysgol bresennol oedd oherwydd cyfyngiadau o ran lle a'r fantais o ddefnyddio ffrâm bren oedd lleihau effaith y pwysau ychwanegol ar y seiliau presennol. Roedd cyflymder adeiladu'r fframwaith hefyd yn ffactor gan y gellid cwblhau'r holl waith yn ystod gwyliau'r haf ac felly leihau'r effaith ar y plant. Roedd dewis fframwaith pren hefyd yn fanteisiol o ran effeithlonrwydd ynni oherwydd ei fod yn golygu inswleiddio gwell.
		Yn Slofenia hefyd, ymwelwyd yn gyntaf â chwmni Jelovica i weld cynhyrchu fframwaith pren, pris-isel ar gyfer tai parod i deuluoedd ac yna ymwelwyd â chwmni Riko lle gwelodd y rhanddeiliaid dai parod o bren solet yn cael eu hadeiladu. Roedd yr holl dai wedi'u hadeiladu i gynlluniau unigryw ac yn cynnwys inswleiddio â ffibr coed. Enynnodd y gwahaniaethau rhwng y ddau gwmni a'r dulliau a ddefnyddid, drafodaeth a dadl rhwng y rhanbarthau partner.
	3. Adfywio lleol trwy gyfrwng coedwigoedd o werth sydd wedi'u rheoli'n dda ar ffermydd, yn y gymuned, yn ogystal â rhai bychain	3.1 Rhoi mynediad gwell at adnoddau coetiroedd i gymunedau difreintiedig a mentrau busnes lleol
		Bydd y seminar a gynhelir yn Estonia ym mis Mehefin yn cynnwys gweithdai a fydd yn canolbwyntio ar sut i gyflawni manteision amgylcheddol, trwy greu cymhellion ariannol newydd a fydd yn annog adeiladu cynaliadwy trwy gynyddu'r defnydd o bren. Caiff y rhain eu targedu at fentrau busnes lleol a chymunedau difreintiedig ac fe'u cyflwynir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i lywodraethau rhanbarthol eraill yn Ewrop ac i'r UE.
		Mae ymweliadau â safleoedd yn Estonia a Gwlad Pwyl wedi dangos, i rhanddeiliaid o Gymru sut y mae prosiectau cymunedol traddodiadol wedi cynorthwyo cymunedau a busnesau lleol trwy gynnal parhad a sicrhau nad yw'r sgiliau gweithgynhyrchu traddodiadol wedi mynd ar ddifancoll. Byddai'r agwedd leol hon o werth mawr i rai cymunedau difreintiedig yng Nghymru ac fe'i hymchwilir ymhellach gan PFCC trwy Wood Knowledge Wales.
		Yn Estonia gwelodd rhanddeiliaid adeiladau bychain byr-oes y mae cymunedau lleol yn eu defnyddio yn danwydd pan fônt wedi ateb y diben – am yr amod na ddefnyddir sylweddau cemegol na phaent arnynt i estyn eu hoes. Bydd yr arferion hyn yn awr yn rhan o ymchwil Wood Knowledge Wales.

COETIROEDD YN CYFRANNU AT AMGYLCHEDD MWY IACH A HYDWYTH

Cyflwr gwell i'r amgylchedd naturiol ac ecolegol	3. Coetiroedd a all addasu i newid yn yr hinsawdd a chynorthwyo i leddfu'r effaith ar bobl	Hyrwyddo defnydd tymor-hir ar bren
		Mae adeiladu cynaliadwy sy'n gwneud defnydd cynyddol o bren yn cael effaith gadarnhaol i leddfu effaith newid yn yr hinsawdd. Mae rhanddeiliaid o Gymru wedi gweld dulliau cynllunio ac adeiladu yn Slofenia a fydd o fantais wrth addasu dulliau adeiladu tai i roi sylw i newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol. Caiff y dulliau hyn eu datblygu a'u mabwysiadu, i roi sylw i newid yn yr hinsawdd, yng Nghymru.
		Gwelwyd enghreifftiau penodol o faterion technegol ar ymweliadau â safleoedd. Yn Estonia, gwelwyd pont o bren glud-haenog a adawyd o fwriad heb ei thrin. Mae dirywiad uwchfioled wedi digwydd ar ôl tair blynedd gan orfodi gwneud gwaith trin drud, ac argyhoeddodd hyn rhanddeiliaid Cymru y dylid trin y pren yng Nghanolfan Ymwelwyr Coed y Brenin yn gynnar yn ei oes.

PROSESAU ADRANNOL A CHORFFORAETHOL

Y Gwerth Gorau i gymdeithas o fuddsoddi arian cyhoeddus	1.Gwasanaethau a chyngor o'r radd flaenaf i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid	1.1 Proses Strategaeth Coetiroedd i Gymru a reolir ar ran Gweinidogion
		Mae GATE wedi rhoi gwybod i aelodau staff CCC sy'n gyfrifol am adolygu amcanion Strategaeth Goetiroedd Cymru am gynyddu faint o bren o Gymru a ddefnyddir mewn adeiladu a sut y gall hyn helpu yn y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd.
		1.2 Llywodraethu mewnol ac allanol a phrosesau cyfathrebu effeithiol
		Yn bartner arweiniol GATE, ystyrir bod CCC yn ganolog i sefydlu cysylltiadau rhwng y sector coedwigaeth a'r sector adeiladu ledled Ewrop. Trwy CCC, mae Llywodraeth Cynulliad Genedlaethol Cymru yn dangos bod ganddi agwedd allblyg a'i bod yn cydweithio, rhannu arfer gorau ac yn gweithio mewn partneriaeth a rhanbarthau eraill yn yr UE.
		1.3 Polisi coedwigaeth yn unol â Choetiroedd i Gymru a pholisïau eraill y llywodraeth a chyfreithiau sy'n briodol
		Mae enw da i CCC yn Interreg oherwydd ansawdd ei weithgareddau a'r adroddiad ariannol am brosiect GATE. Dangosir y rhain yn enghreifftiau o arfer gorau i'w dilyn gan brosiectau Interreg eraill.

		Crëwyd amgylchedd sy'n annog cydweithrediad proffesiynol a chyfeillgar rhwng rhanbarthau partner ledled Ewrop.
		Mae'r prosiect yn gwneud defnydd o brofiad aelod-wladwriaethau hen sefydlog, h.y. Cymru a'r Almaen, wrth ymdrin â chronfeydd Strwythurol, er budd y newydd-ddyfodiaid, h.y. Slofenia, Estonia a gwlad Pwyl.
		Mae rhanddeiliaid o Ysgol Bensaernïaeth Cymru ac Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru wedi cael profiad o lygad y ffynnon o fentrau academiaidd yn Thwringia, yn y Ganolfan Amgylchedd ar gyfer Masnach ac ym Mhrifysgol Ljubljana, Slofenia ac wedi creu cysylltiadau parhaol â hwy.
		Mae'r rhai y mae a wnelont â phrosiectau Ewropeaidd yn gallu rhoi gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf i'r Tîm Datblygu Polisi a Rhaglenni yn CCC.
	2. Gallu gwell a sylw gwell i gwsmeriaid	2.1 Gwneud y defnydd gorau o'n hasedau ac ystyried sut y gellir manteisio ar ffynonellau refeniw newydd er mwyn lleihau dibyniaeth ar ffynonellau cyllido cyfredol.
		Cyfanswm gwariant Cymru am gyfnod tair blynedd y prosiect yw £244,000 a daw £183,000 o hyn o gronfeydd yr UE trwy Interreg IIIC a £61,000 oddi wrth CCC
		2.2 Rheoli effeithiol ac effeithlon o adnoddau dynol yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru gan gyflawni cyfrifoldebau cyflogwr modern
		Datblygu timau ac aelodau unigol o staff CCC - gwneud y defnydd gorau o gyllid yr UE er mwyn cael profiad ac arbenigedd o ran rheoli prosiect ac mewn sgiliau arwain yn rhinwedd bod yn Bartner â'r Prif Gyfrifoldeb tros Arwain yn y prosiect. Mae'r profiad hwn yn amhrisiadwy i holl brosiectau CCC yn y dyfodol.
		Dysgu am arferion gwaith ledled yr UE a dod â'r wybodaeth hon yn ôl i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru.
		2.3 Systemau rheoli arian agored sy'n cefnogi amcanion CCC; monitro a gweithrediad ariannol gwell
		Sgiliau rheoli arian gwell sy'n gysylltiedig â gweithgareddau ar sail prosiectau yn hytrach na 'busnes yn ôl yr arfer'. Ynghyd â phrofiad o systemau cyfrifyddu cronfeydd strwythurol Ewrop.